# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 22 Mawrth 2023 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 23 Mawrth 2023 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 30 Mawrth 2023 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Nia Jeffreys
Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet Economi a Chymuned

**PWNC – Penodi i Fwrdd Cyfarwyddwyr Cwmni Byw'n Iach**

**PENDERFYNIAD –**

I benodi'r aelodau canlynol fel Cyfarwyddwyr ar Fwrdd Cyfarwyddwyr y Cwmni Byw'n Iach am gyfnod y Cyngor hyd Ebrill 2027.

- Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn
- Cynghorydd Annwen Hughes
- Cynghorydd Gareth T. Jones
- Cynghorydd Beth Lawton
- Cynghorydd Llio E. Owen
- Cynghorydd Richard G. Roberts
- Cynghorydd Sasha Williams

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig.

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cyng. Nia Jeffreys<br>Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet Economi a Chymuned |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Sioned Mai Jones<br>Arweinydd Tîm Democratiaeth |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad : | 22 Mawrth 2023 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | N. Jeffreys. |

**Pwnc :**

Penodi i Fwrdd Cyfarwyddwyr Cwmni Byw'n Iach

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

I benodi'r aelodau canlynol fel Cyfarwyddwyr ar Fwrdd Cyfarwyddwyr y Cwmni Byw'n Iach am gyfnod y Cyngor hyd Ebrill 2027.

- Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn
- Cynghorydd Annwen Hughes
- Cynghorydd Gareth T. Jones
- Cynghorydd Beth Lawton
- Cynghorydd Llio E. Owen
- Cynghorydd Richard G. Roberts
- Cynghorydd Sasha Williams

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Ar ddechrau tymor bob Cyngor mae gofyn i enwebu aelodau i gynrychioli Cyngor Gwynedd ar restr o gyrff allanol. Mae'r penderfyniad terfynol ar y penodiadau yma wedi ei osod yn nwylo'r weithrediaeth.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am reoli busnes y Cwmni; bydd y penodiadau arfaethedig yn galluogi i'r Bwrdd weithredu ar ei ddyletswyddau.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Yn unol â Deddf Cwmni 2006 mae gofyn i gyfarwyddwyr fod â sgiliau a gwybodaeth angenrheidiol i redeg cwmni ac mae ffactorau eraill fydd yn arwain at ffurfio Bwrdd effeithiol a cynrychiadol. Fe ddefnyddiwyd yr egwyddorion isod fel canllaw ar gyfer penderfynu ar aelodaeth y Bwrdd:

- Fod cydbwysedd daearyddol, gwleidyddol, rhyw ac oedran ar y Bwrdd.
- Fod Cynghorwyr yn gallu arddangos dealltwriaeth o rôl Cyfarwyddwr.
- Fod Cynghorwyr gyda rhinweddau cyfathrebu cryf a'r gallu i fynegi barn gytbwys, yn gallu gwrando ar farn eraill; y gallu i herio a thrafod.
- Fod Cynghorwyr â rhinweddau dadansoddi cryf; y gallu i ddarllen testun cymhleth a chynnig cwestiynau a sylwadau.
- Gallu ymrwymo amser i'r Bwrdd.
- Fod yna cydbwysedd priodol o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad ar y Bwrdd.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

-

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Prif Swyddog Cyllid – Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol

Swyddog Monitro – Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb